CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 5 CHWEFROR 2019

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng E R Hughes

Cynghorwyr
W T Owen, I C Thomas, B Owen, W L Davies, A Hopcyn, E Lovgreen, C Williams, M Sarnacki, K Jones, C Larsen, J W Parry, K Richards , R Thomas, D L Jones

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng S Sage, Cyng W R Owen

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Cystadleuaeth Bandiau pres
Cinio Trefi Caerog

3. **Datgan Buddiant Personol**

Eitem 16 Gisda – Cyng E R Hughes a Cyng W T Owen

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 8 Ionawr 2019
ii) Is Bwyllgor Adloniant 15 Ionawr 2019

Penderfynwyd

i) derbyn fel rhai cywir (unfrydol)
ii) Derbyn yr argymhellion i gyd ac ychwanegu prynu bunting Gŵyl Dewi fel sydd yn arferol (unfrydol)

6. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu (unfrydol)

7.Cysoni cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth **(unfrydol)**

8. Maerolaeth

Enwebu Maer etholedig am y flwyddyn 2019– 2020

Penderfynwyd

Ethol Cyng W T Owen yn unfrydol fel Maer etholedig am 2019-2020 (unfrydol)

9. Hebog

Gofynnwyd os yr oeddem yn dymuno parhau a'r cynllun fel llynedd

Penderfynwyd

Talu am 6 wythnos ru'n fath a llynedd (unfrydol)

10. Diweddariad ar y siop

Cafwyd diweddariad bod pethau yn cychwyn symud , awgrym ein bod ni angen adroddiad asbestos a trydan i'r siop (er dim rhaid yn gyfreithiol)

Penderfynwyd

Mynd ati i drefnu adroddiad Asbestos a Trydan gan obeithio y bydd y les yn cael ei arwyddo yn fuan (unfrydol)

11. Llythyr diolch Frondeg

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

12. Scope

Diweddariad Casglu

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ond gadael iddyn nhw wybod bod ni ddim yn gyfrifol am y casgliadau lleol fel awgrymi'r yn y llythyr. (unfrydol)

13. **Swyddfa archwilio Cymru**

Dogfennau ar y bwrdd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a diweddaru ein cynllun dirprwyo. Clerc i baratoi drafft ar gyfer y rhaglen nesaf (unfrydol)

14. **E-bost Cyngor Gwynedd**

Parthed Gwylanod

(Wedi ei gylchredeg o flaen llaw i bobl ystyried eu cynnwys)

Penderfynwyd

Anfon rhestr o'r lleoliadau canlynol :-
Siop Maesincla , Canolfan Noddfa, Ffordd Llanberis (siop chips), Siop chips yr Hendre, Y Maes, Cysgodfannau bysus (prif safle), Tu allan i Morrisons ,Ysgolion (unfrydol)

15. Cofnodion cyfarfod Glannau Caernarfon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a holi os oes modd anfon cynrychiolydd arall yn lle'r clerc (unfrydol)

16. Rhybudd o Gynnig Cynghorydd E.R. Hughes
(aeth Cyng E R Hughes a Cyng W T Owen allan ar gyfer yr eitem yma) (I C Thomas yn cadeirio)

Parthed Fflag

Penderfynwyd

Cytuno i'w osod am wythnos yn ystod Mis Chwefror (unfrydol) ac hefyd creu polisi fflagiau (unfrydol)

17. **Cyngor Gwynedd**

Llwybrau cyhoeddus – Ffordd Osgoi

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

18 **Cyngor Gwynedd**

Adolygiad Cludiant

Penderfynwyd

Pawb i annog cynifer a phosib i ymateb er mwyn gwarchod y bysus lleol (unfrydol)

19. **Rhybudd o Gynnig Cynghorydd Jason Wayne Parry**

Parthed Sbwriel

Penderfynwyd

Cefnogi mewn egwyddor a symud i'r Pwyllgor Gwaith am drafodaeth pellach cyn mynd i'r pwyllgor personél am unrhyw weithred (unfrydol)

20. **Adroddiad o Gyfarfod Llesiant**

Gan gynnwys drafft adroddiad blynyddol

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad gan ofyn i Mr Dafydd Davies fynychu fel siaradwr gwadd a mabwysiadu'r adroddiad blynyddol (unrhyw man sylwadau i'r clerc o fewn yr wythnos) (unfrydol)

21. Adroddiad Cyng. Ann Hopcyn o cyfarfod CADW

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth , a gwahodd Mr Chris Wild i gyfarfod anffurfiol ar ddyddiad sydd yn gyfleus iddo . Clerc i rannu'r Dyddiad gyda'r Cynghorwyr a Cymdeithas Dinesig (unfrydol)

22. E byst Cyngor Gwynedd

Parthed Maes Parcio Cei Llechi

Penderfynwyd

Derbyn ond gofyn am sicrwydd y bydd yr Harbwr Feistr dal yn gyfrifol am ganiatáu grwpiau lleol gael defnydd o'r safle , ac os ydi'r permit dal yn mynd i fod ar gael i bobl lleol (unfrydol)

23.Cwestiynau

Dim cwestiynau

Eitem Eithriedig

Materion staffio

Yng nghyfarfod llawn o'r Cyngor ar ddydd Mawrth 5 Chwefror 2019 penderfynwyd y canlynol

1. **Clerc**

   Pwynt cyflog SCP 39 i'w adolygu bob 3 blynedd yn weithredol o 1 Ionawr 2019..

2. **Ysgrifenyddes**

   Pwynt cyflog SCP 19 l'w adolygu bob 3 blynedd yn weithredol o 1 Ionawr 2019.

3. Bydd Disgrifiad Swydd y ddwy swydd yn cael ei adolygu i fod yn weithredol o 1 Ebrill 2019

Gorffennodd y cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd …….. Dyddiad ……..